# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 6 Hydref 2009

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau*

**Gareth Jones (Aberconwy):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi tabl yn dangos nifer yr ysgolion a disgyblion yng Nghymru sy’n cymryd rhan yn y fenter 'Symud y Dosbarth!’, fesul awdurdod lleol. (WAQ54899)

***Rhoddwyd ateb ar 09 Hydref 2009***

Casglwyd y data diweddaraf o ran nifer yr ysgolion a hyfforddwyd ac sy'n defnyddio deunyddiau 'Symud y Dosbarth!', ym mis Mawrth 2006, ac mae'r data hwn wedi'i atodi. Nid yw'r data sy'n ymwneud â nifer y disgyblion sy'n cymryd rhan erioed wedi'i gasglu'n rheolaidd.

| Awdurdod | Nifer yr ysgolion a hyfforddwyd i ddefnyddio SyD! | Nifer yr ysgolion a hyfforddwyd sy'n defnyddio SyD! |
|---|---:|---:|
| Blaenau Gwent (gan gynnwys 1 UCD) | 33 | 16 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 52 | 39 |
| Caerffili | 85 | 45 |
| Caerdydd | 24 | 14 |
| Caerfyrddin | 80 | 80 |
| Ceredigion | 57 | 15 |
| Conwy | 40 | 35 |
| Sir Ddinbych | 57 | 57 |
| Sir y Fflint | | 30-40 |
| Gwynedd | dim ymateb | dim ymateb |
| Merthyr Tudful | 34 | 16 |
| Castell-nedd Port Talbot | 29 | 10 |
| Casnewydd/Sir Fynwy | 51 | 51 |
| Sir Benfro | 72 | 36 |
| Powys | 95% | 50% |
| Rhondda Cynon Taf | 60 | 60 |
| Abertawe | 75 | 40-50 |
| Tor-faen | 15 | 10 |
| Bro Morgannwg (gan gynnwys 1 UCD) | 33 | 22 |
| Wrecsam | 63 | 31 |
| Ynys Môn | 40 | 15 |

## *Gofyn i’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Michael German (Dwyrain De Cymru):** Sawl eiddo a brynwyd fel rhan o brosiect ffordd liniaru'r M4 a beth oedd cyfanswm gwerth eu prynu. (WAQ54894)

***Rhoddwyd ateb ar 12 Hydref 2009***

Prynwyd 14 eiddo fel rhan o brosiect ffordd liniaru'r M4 gwerth £5,207,000. Yn ogystal, talwyd £342,000 mewn ffioedd prisio, arolygu a chyfreithwyr, taliadau aflonyddwch a thaliadau am golli cartref mewn cysylltiad â'r eiddo a brynwyd. Ers hynny mae chwech o'r rhain wedi'u gwerthu ar y farchnad agored am gyfanswm o £1,896,000.
Mae dau eiddo arall yn y broses o gael eu caffael am werth amcangyfrifedig o £950,000. Ceir rhwymedigaeth gyfreithiol i gaffael y ddau eiddo hyn gan fod Hysbysiadau Malltod wedi'u derbyn cyn y penderfyniad i beidio â datblygu'r M4 Newydd.

## *Gofyn i’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai*

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** A fydd yr ymatebion i’r ymgynghoriad ar gynigion i godi ffi am fagiau siopa untro ar gael i’r cyhoedd. (WAQ54900)

***Rhoddwyd ateb ar 12 Hydref 2009***

Rwy'n bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn fuan a fydd ond yn cynnwys rhestr o enwau'r ymatebwyr hynny nad ydynt wedi gofyn i'w manylion gael eu cadw'n gyfrinachol.
Byddaf yn cyhoeddi'r ymatebion ysgrifenedig llawn ar wahân yn electronig ac eithrio ymatebion y rheini sydd wedi gofyn i'w manylion gael eu cadw'n gyfrinachol

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Pryd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu cynnal asesiad effaith rheoleiddiol ar y cynigion i godi ffi am fagiau siopa untro. (WAQ54901)

***Rhoddwyd ateb ar 12 Hydref 2009***

Bydd angen cynnal asesiad effaith rheoleiddiol fel rhan o'r Memorandwm Esboniadol i'w gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Weinidogion Cymru, ar y cyd â'r Offeryn Statudol Drafft.

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau bod yr holl nyrsys newydd a gyflogir gan y GIG yn cael cyfeiriad e-bost fel mater o drefn. (WAQ54896)

***Rhoddwyd ateb ar 12 Hydref 2009***

Rwyf wedi ysgrifennu atoch i gadarnhau y rhoddir cyfeiriad e-bost i'r aelodau o staff hynny sy'n defnyddio cyfrifiadur i wneud eu gwaith. Rhaid gwerthfawrogi hefyd bod oedi weithiau wrth sefydlu ac actifadu proffiliau cyfrifiadur ar gyfer aelodau newydd o staff. Mae'n bwysig sicrhau y gall staff wneud defnydd priodol o systemau technoleg gwybodaeth er mwyn cefnogi gofal cleifion. Rwyf felly wedi ysgrifennu at Brif Weithredwyr BILlau ac Ymddiriedolaethau i ymchwilio i'r mater a godwyd gan y Coleg Nyrsio Brenhinol.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gymorth ariannol y mae’r Gweinidog yn ei ddarparu i Ymddiriedolaethau GIG a Byrddau Iechyd Lleol i oresgyn diffygion ariannol. (WAQ54897)

***Rhoddwyd ateb ar 12 Hydref 2009***

Cyhoeddwyd cynigion drafft ar gyfer y gyllideb ar 6ed Hydref. Bydd cyllid Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol yn cynyddu 2.6% yn 2010-11. Mae gan Ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Iechyd Lleol gyllidebau sylweddol, a disgwylir iddynt gadw at y cyllidebau hyn.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gymorth ariannol y mae’r Gweinidog wedi’i roi i’r cyn Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau yng nghyswllt diffygion a gafwyd cyn ad-drefnu’r GIG. (WAQ54898)

***Rhoddwyd ateb ar 09 Hydref 2009***

Y llynedd, cytunais i ganslo'r cyllid cymorth strategol o £40.469 miliwn a ddarparwyd i Ymddiriedolaeth GIG Hywel Dda mewn cydnabyddiaeth o'r ffaith y mantolwyd y gyllideb ganddynt yn 2008-09. Mae hyn wedi cael gwared ar ddyledion a etifeddwyd o'r tair ymddiriedolaeth flaenorol.

Hefyd, cytunais i ganslo'r cyllid cymorth strategol o £7.676 miliwn a ddarparwyd i Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Cymru, a gariwyd ymlaen o'r ddwy ymddiriedolaeth ragflaenol.

Mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol gadw gwariant o fewn y cyllid sydd ar gael iddynt, fel na fyddant yn cario dyled ymlaen.

**Eleanor Burnham (Gogledd Cymru):** Sut y caiff y Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd ei gyllido a sut y mae’n plethu ac yn gweithio ag a) y Swyddog Adolygu Annibynnol a b) awdurdodau lleol. (WAQ54902)

***Rhoddwyd ateb ar 01 Chwefror 2010***

Nodir gwybodaeth am ariannu'r TICID a'i oblygiadau ar gyfer awdurdodau lleol yn y Memorandwm Esboniadol a gyhoeddwyd ar Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru). Bydd TICID yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal a bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn parhau i gael swyddogaeth statudol i gynnal adolygiad statudol o gynllun gofal y plentyn.

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol*

**Nerys Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau a) faint y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei roi i gyllido Teledu Sir Gâr; b) o ba linell yn y gyllideb y daw’r cyllid; ac c) pa gyfran o gyfanswm y gost y mae hyn yn ei gynrychioli. (WAQ54895)

***Rhoddwyd ateb ar 09 Hydref 2009***

Casglaf y bu Bwrdd Gwasanaeth Lleol Sir Gaerfyrddin yn ystyried cyflwyno deunydd fideo i'w ddefnyddio fel rhan o wasanaeth gwybodaeth amlgyfrwng ar gyfer preswylwyr Sir Gaerfyrddin a gwella mynediad at wasanaethau. Fodd bynnag, nid oes penderfyniad wedi'i wneud hyd yma o ran a ddylid parhau â'r prosiect, sydd ar y cam datblygu o hyd, neu ddefnyddio cymysgedd o bartneriaeth a chyllid allanol. Am y rheswm hwn ni allaf gadarnhau unrhyw ffigurau.